OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 801

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

### RHAN 4

Penderfynu

**Ceisiadau a wneir o dan amod cynllunio**

**23.** Pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio lleol am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol drwy amod neu gyfyngiad a osodwyd wrth roi caniatâd cynllunio (ac eithrio cais am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl neu gais am gymeradwyaeth o dan Ran 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (datblygiad gan weithredwyr cod cyfathrebiadau electronig)(**1**)), rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'i benderfyniad ar y cais i'r ceisydd o fewn cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau gyda'r dyddiad y daeth y cais i law'r awdurdod, neu pa bynnag gyfnod hwy a gytunir mewn ysgrifen rhwng y ceisydd a'r awdurdod.

(**1**) O.S. 1995/418. Amnewidiwyd Rhan 24 o Atodlen 2 gan O.S. 2002/1878 (Cy.187).